## Canllawiau i rieni, gofalwyr a myfyrwyr am drefniadau mynediad

**Beth yw trefniadau mynediad?**

- Mae trefniadau mynediad yn caniatáu i fyfyrwyr ag anghenion penodol, fel anghenion addysgol arbennig ac anableddau gael mynediad i arholiad.
- Maent yn galluogi myfyrwyr i ddangos yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr arholiad

**Sut bydd y broses yn cychwyn?**

- Dylai rhieni a gofalwyr roi gwybod i'r CAAA cyn gynted â phosibl os oes gan eu plentyn anghenion ychwanegol. Mae cyfathrebu da ac agored yn bwysig.
- Dylai myfyrwyr mewn Addysg Bellach gofnodi eu hanghenion ychwanegol ar ffurflen gofrestru'r coleg.
- Bydd y CAAA yn gweithio gydag athrawon a'r myfyriwr i nodi trefniadau posibl.
- Mae amrywiaeth o drefniadau mynediad ar gael. Er enghraifft, cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n cael anawsterau gyda darllen, ysgrifennu, cyflymder gweithio a chanolbwyntio.
- Ni fydd angen trefniadau mynediad ar bob myfyriwr ag anghenion ychwanegol. Mae'n dibynnu a yw eu hanhawster yn effeithio ar eu mynediad i arholiadau. Nid yw anghenion ychwanegol yn unig yn rhoi hawl i fyfyriwr gael trefniadau mynediad.

**Pwy fydd yn gwneud yr asesiad?**

- Os oes gan fyfyriwr anawsterau dysgu, rhaid i aseswr penodedig yr ysgol neu'r coleg gynnal yr asesiad i benderfynu ar yr angen am drefniadau mynediad, fel 25% o amser ychwanegol.
- Os yw aseswr allanol yn gwneud diagnosis o anhawster dysgu (er enghraifft, dyslecsia, dyscalcwlia), dim ond os yw'r aseswr wedi cysylltu â'r ysgol neu'r coleg ymlaen llaw y gellir defnyddio'r asesiad fel tystiolaeth ar gyfer trefniadau mynediad.
- Arbenigwyr (er enghraifft, ymgynghorydd meddygol, seiciatrydd) sydd yn gyfrifol am ddarparu diagnosis ffurfiol. **Nid ydynt** yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch trefniadau mynediad.
- Rhaid i'r ysgol neu'r coleg benderfynu pa drefniadau mynediad sydd gan fyfyriwr ar gyfer ei arholiadau.
- Rhaid i athrawon roi tystiolaeth i ddangos bod angen trefniant mynediad. Bydd yr ysgol neu'r coleg yn cofnodi pa mor effeithiol yw'r trefniant yn yr ystafell ddosbarth, mewn profion mewnol neu mewn ffug arholiadau.

**Beth arall mae angen ei wneud?**

- Bydd yn rhaid i'r ysgol neu'r coleg wneud cais am rai trefniadau.
- Os oes gan fyfyriwr anghenion cymhleth, gall ysgol neu goleg drafod ei anghenion gyda'r bwrdd arholi.

**Yn olaf**

Rhaid i ysgolion a cholegau ddilyn y rheolau. Maent yn cael eu harolygu ac os canfyddir eu bod yn torri'r rheolau, bydd hyn yn gamymddygiad.